***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

# Deddf Seilwaith (Cymru) 2024

**2024 dsc 3**

## RHAN 6

GORCHMYNION CYDSYNIAD SEILWAITH

*Darpariaeth mewn gorchmynion sy'n awdurdodi caffael yn orfodol*

### 72 Hysbysiad o awdurdodiad i gaffael yn orfodol

(1) Rhaid i reoliadau wneud darpariaeth sy'n gosod gofynion ar ddarpar brynwr—

(a) i roi, i gyhoeddi ac i arddangos hysbysiad caffael gorfodol;

(b) i alluogi'r cyhoedd i weld copi o'r gorchymyn cydsyniad seilwaith y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef.

(2) Ystyr hysbysiad caffael gorfodol yw hysbysiad ar y ffurf a bennir mewn rheoliadau—

(a) sy'n disgrifio tir y gorchymyn,

(b) mewn achos pan fo'r gorchymyn cydsyniad seilwaith yn awdurdodi caffael hawl dros dir yn orfodol drwy greu hawl newydd, sy'n disgrifio'r hawl,

(c) sy'n datgan bod y gorchymyn cydsyniad seilwaith yn cynnwys darpariaeth sy'n awdurdodi caffael hawl dros y tir yn orfodol drwy greu hawl drosto neu (yn ôl y digwydd) gaffael y tir yn orfodol,

(d) mewn achos pan fo'r gorchymyn yn cymhwyso Rhannau 2 a 3 o Ddeddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981 (p. 66)—

(i) sy'n cynnwys datganiad a bennir mewn rheoliadau ynghylch effaith y Rhannau hynny, a

(ii) sy'n gwahodd unrhyw berson a fyddai â hawlogaeth i hawlio digollediad pe bai datganiad yn cael ei gwblhau o dan adran 4 o'r Ddeddf honno i roi gwybodaeth i'r darpar brynwr ynghylch enw a chyfeiriad y person a'i fuddiant yn y tir gan ddefnyddio ffurf a bennir mewn rheoliadau,

(e) sy'n datgan ymhle a phryd y mae copi o'r gorchymyn ar gael i edrych arno yn unol â rheoliadau o dan is-adran (1)(b), ac

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

(f) sy'n datgan na chaiff person a dramgwyddir gan y gorchymyn ond herio'r gorchymyn yn unol ag adran 96.

(3) Yn yr adran hon—

ystyr "y darpar brynwr" ("*the prospective purchaser*") yw—

(a) mewn achos pan fo'r gorchymyn cydsyniad seilwaith yn awdurdodi caffael hawl dros dir yn orfodol drwy greu hawl newydd, y person y mae'r gorchymyn yn awdurdodi creu'r hawl er ei fudd;

(b) mewn unrhyw achos arall pan fo'r gorchymyn cydsyniad seilwaith yn awdurdodi caffael tir yn orfodol, y person a awdurdodir gan y gorchymyn i gaffael y tir yn orfodol;

ystyr "tir y gorchymyn" ("*the order land*") yw—

(a) mewn achos pan fo'r gorchymyn cydsyniad seilwaith yn awdurdodi caffael hawl dros dir yn orfodol drwy greu hawl newydd, y tir y mae'r hawl i fod yn arferadwy drosto neu (yn achos cyfamod cyfyngol) y mae'n gymwys iddo;

(b) mewn unrhyw achos arall pan fo'r gorchymyn cydsyniad seilwaith yn awdurdodi caffael tir yn orfodol, y tir yr awdurdodir ei gaffael yn orfodol.

(4) Rhaid i'r darpar brynwr anfon hysbysiad caffael gorfodol at y Prif Gofrestrydd Tir ac mae i fod yn bridiant tir lleol mewn cysylltiad â'r tir y mae'n ymwneud ag ef.